RHONDDA CYNON TAF

# PWYLLGOR CYNGOR RHONDDA CYNON TAF
## CYNGOR

Cofnodion o gyfarfod hybrid y Cyngor a gynhaliwyd Dydd Mercher, 20 Medi 2023 am 4.00 pm.

Cafodd y cyfarfod yma ei ddarlledu'n fyw, ac mae modd gweld y manylion yma

**Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol – Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol yn Siambr y Cyngor:-**

Y Cynghorydd G Hughes (Cadeirydd)

Y Cynghorydd B Stephens
Y Cynghorydd Sheryl Evans
Y Cynghorydd J Bonetto
Y Cynghorydd D R Bevan
Y Cynghorydd J Brencher
Y Cynghorydd S Bradwick
Y Cynghorydd J Cook
Y Cynghorydd G Caple
Y Cynghorydd S J Davies
Y Cynghorydd A Crimmings
Y Cynghorydd S Emmanuel
Y Cynghorydd R Davis
Y Cynghorydd J Edwards
Y Cynghorydd V Dunn
Y Cynghorydd B Harris
Y Cynghorydd L Ellis
Y Cynghorydd G Holmes
Y Cynghorydd W Hughes
Y Cynghorydd K Johnson
Y Cynghorydd G O Jones
Y Cynghorydd G Jones
Y Cynghorydd W Jones
Y Cynghorydd W Lewis
Y Cynghorydd C Leyshon
Y Cynghorydd C Middle
Y Cynghorydd M Maohoub
Y Cynghorydd A Morgan
Y Cynghorydd N H Morgan
Y Cynghorydd S Morgans
Y Cynghorydd W Owen
Y Cynghorydd D Parkin
Y Cynghorydd M Norris
Y Cynghorydd C Preedy
Y Cynghorydd S Rees
Y Cynghorydd G Stacey
Y Cynghorydd L A Tomkinson
Y Cynghorydd S Trask
Y Cynghorydd W Treeby
Y Cynghorydd G Warren
Y Cynghorydd M Webber
Y Cynghorydd R Williams
Y Cynghorydd T Williams
Y Cynghorydd R Yeo

**Roedd y Cynghorwyr canlynol yn bresennol ar-lein:**

Y Cynghorydd M Ashford
Y Cynghorydd L Addiscott
Y Cynghorydd P Binning
Y Cynghorydd A Dennis
Y Cynghorydd E Dunning
Y Cynghorydd J Elliott
Y Cynghorydd P Evans
Y Cynghorydd D Evans
Y Cynghorydd R Evans
Y Cynghorydd A S Fox
Y Cynghorydd D Grehan
Y Cynghorydd Sera Evans
Y Cynghorydd S Hickman
Y Cynghorydd G Hopkins
Y Cynghorydd C Lisles
Y Cynghorydd H Gronow
Y Cynghorydd R Lewis
Y Cynghorydd D Owen-Jones
Y Cynghorydd K Morgan
Y Cynghorydd M Powell
Y Cynghorydd A Rogers
Y Cynghorydd A Roberts
Y Cynghorydd D Williams
Y Cynghorydd J Turner
Y Cynghorydd G E Williams
Y Cynghorydd K Webb
Y Cynghorydd D Wood

**Dyma'r Swyddogion oedd yn bresennol**

Mr P Mee, Prif Weithredwr
Mr B Davies, Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen
Mr R Evans, Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol
Mr C Hanagan, Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu
Mr A Wilkins, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd A J Ellis | Y Cynghorydd S Powderhill |
| Y Cynghorydd J Smith | Y Cynghorydd J Barton |

**38 Croeso**

Croesawodd y Llywydd Aelodau i gyfarfod hybrid y Cyngor.

**39 Datgan Buddiant**

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor ac yn dilyn cyngor a roddwyd gan Gyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol a Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor, cafodd y datganiadau canlynol eu gwneud ynglŷn â'r agenda a chafodd buddiant (8) mewn perthynas ag eitem 7 ar yr agenda ei ddatgan yn hwyrach yn y cyfarfod (gweler cofnod 45):

**Eitem 7 ar yr agenda – Adolygiad o Delerau ac Amodau'r Cyngor:**

1. Datganodd y Cynghorydd D R Bevan y buddiant personol canlynol – "Mae gyda fi ddau aelod o'r teulu y mae'n bosibl y bydd yr hyn sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad yn effeithio arnyn nhw."

2. Datganodd y Cynghorydd A Morgan y buddiant personol canlynol – "Mae gyda fi gydymaith agos y mae'n bosibl y bydd hyn yn effeithio arno."

3. Datganodd y Cynghorydd G Hughes y buddiant personol canlynol – "Mae fy mam yn Gweithio i'r Awdurdod Lleol."

4. Datganodd y Cynghorydd W Hughes y buddiant personol canlynol – "Mae fy ngwraig yn gweithio i'r Awdurdod Lleol."

5. Datganodd y Cynghorydd G Stacey y buddiant personol canlynol – "Mae fy merch, fy mab a fy ŵyr yn gweithio i'r Cyngor."

6. Datganodd y Cynghorydd T Williams y buddiant personol canlynol – "Mae fy mab yn gweithio i'r Cyngor".

7. Datganodd y Cynghorydd W Lewis y buddiant personol canlynol – "Mae fy mab yn Gweithio i'r Cyngor".

8. Datganodd y Cynghorydd W Treeby y buddiant personol canlynol – "Mae fy nau fab yn gweithio i'r Cyngor."

**40 Cofnodion**

**PENDERFYNODD** y Cyngor gymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Cyngor a gynhaliwyd ar 12 Gorffennaf 2023 yn rhai cywir (yn amodol ar ddileu enw'r Cynghorydd S Trask o'r rhestr o bobl a oedd yn bresennol yn y cyfarfod am 4pm).

**41 Cyhoeddiadau**

Cafodd y cyhoeddiadau canlynol eu gwneud:

- Roedd y Cynghorydd R Harris yn dymuno llongyfarch y chwaraewr rygbi, Adam Beard, a ddathlodd chwarae ei 50fed gêm dros Gymru yng Nghwpan Rygbi'r Byd yn ddiweddar. Roedd hefyd wedi dymuno pob lwc i garfan rygbi Cymru ar gyfer ei gêm yn erbyn Awstralia ar y penwythnos.

- Arweiniodd y Cynghorydd M Maohoub y Cyngor i gynnal munud o dawelwch er cof am y bobl a gollodd eu bywydau yn y digwyddiadau trasig diweddar ym Morocco a Libya.

- Fe wnaeth y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu y cyhoeddiad canlynol, yn absenoldeb y Cynghorydd W Treeby, mewn perthynas â rhoddion i elusennau'r Cynghorydd Treeby yn ystod ei chyfnod fel Maer Rhondda Cynon Taf ym Mlwyddyn 2022/23 y Cyngor:

  Ambiwlans Awyr Cymru £26,100
  Cymdeithas Strôc £26,100
  Mae'r ddau swm yma'n cynnwys £24,000 o arian ICCM yr un.
  Green Meadow Riding School for the Disabled £2,100
  **Cyfanswm: £54,300**

**42 Cwestiynau gan yr Aelodau**

Cafodd pawb wybod y byddai cwestiwn 3 yn cael ei hepgor o ganlyniad i absenoldeb yr Aelod sy'n gofyn y cwestiwn:

1. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Evans i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

"A oes modd i'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf o ran cynllun Pont Britannia?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

Nododd yr Arweinydd fod y cwestiwn yma'n ymwneud â chynllun Heol Eirw / Pont Imperial sy'n symud ymlaen tuag at ei gamau olaf. Mae berynnau newydd wedi cael eu gosod ac mae gwaith atgyweirio wedi cael ei gynnal ar ganllawiau a strwythur dur y bont, gan gymryd lle'r rhannau sydd wedi cyrydu. Mae hen baent y bont gyfan, sef wyneb ychydig yn llai na 3,000 metr sgwâr, wedi cael ei dynnu ac mae'r bont wedi cael ei hailbaentio.

Ychwanegodd yr Arweinydd fod wyneb y ffordd wedi cael ei dynnu er mwyn gwneud y bont yn wrth-ddŵr a bydd angen atgyweirio'r gwaith llenwi concrit yn

gyntaf. Bydd hyn yn ychwanegu ambell i wythnos at y rhaglen. Dywedodd fod modd i gynlluniau mawr, fel yr un yma a chynlluniau cynnal a chadw strwythurau neu osod rhai newydd, darfu'n lleol felly mae'r Cyngor yn ddiolchgar i drigolion am eu hamynedd a'u cydweithrediad.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Evans:**

“Oes modd i'r Arweinydd esbonio pwysigrwydd rhaglen atgyweiriadau strwythurol a chynnal a chadw yn RhCT?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

Dywedodd yr Arweinydd ei bod yn bwysig iawn a bod y Cyngor wrthi'n gosod nifer o bontydd newydd ledled y Fwrdeistref Sirol, ochr yn ochr â'r rhaglen gyfalaf. Fe wnaeth yr Arweinydd gydnabod y tarfu y mae hyn yn ei achosi ond heb fuddsoddi yn y strwythurau, bydden nhw'n cau. Byddai hyn yn arwain at oblygiadau a tharfu hirdymor i drigolion lleol, a hynny hyd nes y bydd strwythurau newydd yn cael eu gosod.

Esboniodd yr Arweinydd fod buddsoddi parhaus yn dilyn Storm Dennis yn anochel a bod angen y buddsoddiadau yma'n fawr. Esboniodd y bydd strwythurau newydd yn parhau i gael eu gosod wrth i amser fynd heibio a chyn iddyn nhw waethygu gormod fydd yn cael goblygiadau difrifol ac yn arwain at darfu ar gyfer trigolion lleol.

**2. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol H Gronow i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion yr Amgylchedd a Hamdden, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

“Fyddai modd i'r Aelod o'r Cabinet perthnasol roi'r wybodaeth ddiweddaraf am dipio'n anghyfreithlon ledled y Fwrdeistref Sirol?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Crimmings:**

Nododd y Cynghorydd Crimmings nad yw Cyngor Rhondda Cynon Taf yn goddef tipio'n anghyfreithlon a'n bod ni'n defnyddio'r holl bwerau sydd ar gael i ni i ddal y rheiny sy'n tipio'n anghyfreithlon yn ein trefi a'n cefn gwlad a'u dwyn i gyfrif.

Nododd y Cynghorydd Crimmings fod y broses o gael gwared ar sbwriel wedi'i dipio'n anghyfreithlon yn y Fwrdeistref Sirol yn costio cannoedd o filoedd o bunnoedd. Dyma arian a ddylai gael ei wario ar wasanaethau rheng flaen allweddol, sy'n hanfodol bwysig yn yr hinsawdd ariannol sydd ohoni. Ychwanegodd drwy nodi mai'r peth sy'n achosi'r mwyaf o rwystredigaeth yw'r ffaith bod modd mynd â llawer o'r eitemau sy'n cael eu clirio oddi ar y strydoedd, y trefi a'r mynyddoedd i Ganolfan Ailgylchu yn y Gymuned neu fod modd i'r Cyngor eu casglu o ymyl y ffordd heb unrhyw gost ychwanegol. Felly does dim esgus o gwbl am yr ymddygiad yma yn ein cymunedau.

Cadarnhaodd y Cynghorydd Crimmings fod Rhondda Cynon Taf, unwaith eto, wedi cyflawni rhagor o erlyniadau llwyddiannus am dipio'n anghyfreithlon nag

unrhyw Awdurdod Lleol arall yng Nghymru. Mae hyn yn golygu mai ni yw'r Awdurdod Lleol gorau yng Nghymru yn y maes yma am 3 blynedd yn olynol. Mae hyn wedi arwain at gynnal 123 o gyfweliadau Deddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol (PACE), rhoi 64 o hysbysiadau cosb benodedig ac erlyn 26 o droseddwyr ledled y Fwrdeistref Sirol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Nododd y Cynghorydd Crimmings, yn ogystal â chynnal gwiriadau rheolaidd ac ymateb i adroddiadau sy'n dod i law, fod gan y Cyngor nifer o gamerâu cudd, symudol sy'n cael eu gosod mewn lleoliadau allweddol i ddal troseddwyr yn tipio'n anghyfreithlon. Mae carfan Gorfodi Materion Amgylcheddol y Cyngor yn parhau i ymrwymo i ymchwilio i bob achos o dipio'n anghyfreithlon ac erlyn pob trosedd lle mae digon o dystiolaeth.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Crimmings at un enghraifft lle cafodd troseddwr ei orfodi i dalu dros £2,000 a chafodd ddedfryd o garchar ar ôl tipio'n anghyfreithlon 7 gwaith ledled RhCT. Roedd yr unigolyn wedi tipio tua 200 o fagiau du ledled 3 lleoliad, ac roedd y sbwriel yn cynnwys llawer iawn o wastraff canabis a deunyddiau cysylltiedig, gan gynnwys pibellau awyru, lampau gwres, pridd ac eitemau eraill. Ychwanegodd fod gan yr unigolyn drwydded ar gyfer cludo gwastraff ar y pryd, a chafodd eu cerbyd, a oedd yn cynnwys rhagor o fagiau du a thystiolaeth, ei atafaelu yn rhan o'r ymchwiliad. Roedd hwn yn achos cymhleth iawn, a oedd yn cynnwys asiantaethau gwahanol, ond cafodd yr achos ei lywio'n bennaf gan ein swyddogion. Mae hyn yn tynnu sylw at rai o'r gwaith y tu ôl i'r llenni sy'n cael ei gynnal ar gyfer pob achos.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**(Fel y nodwyd, cafodd cwestiwn 3 ei hepgor o ganlyniad i absenoldeb yr Aelod sy'n gofyn y cwestiwn)**

4. **Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Davis i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Gwasanaethau Cymdeithasol, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple:**

"A oes modd i'r Aelod o'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i ddarparu cynllun Gofal Ychwanegol yn ardal Porth?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G Caple:**

Rhoddodd y Cynghorydd Caple ddiolch i'r Aelod am y cyfle i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am fuddsoddiad y Cyngor gwerth £60 miliwn mewn moderneiddio ei gartrefi gofal preswyl er mwyn sicrhau urddas a pharch pobl hŷn gyda chartrefi gofal ychwanegol o'r radd flaenaf gyda darpariaeth ar gyfer anghenion mwy cymhleth megis dementia, ledled y Fwrdeistref Sirol. Bydd y newidiadau yma'n gwella lles ac annibyniaeth pobl hŷn mewn lleoliad modern. Ychwanegodd fod modd i'r Cyngor ddarparu dewis go iawn a gofal o safon i'r bobl fwyaf agored i niwed yn y gymdeithas, a hynny gyda chefndir o doriadau i'r gyllideb ac argyfwng costau byw, ynghyd â helbul economaidd.

Nododd y Cynghorydd Caple i gwmni Jehu Group, a gafodd gontract y cynllun yn wreiddiol, fynd i ddwylo'r gweinyddwyr y llynedd. Cafodd gwaith ar y safle ei atal dros dro a chafodd y safle ei ddiogelu. Mae'r Cyngor wedi bod yn gweithio'n agos gyda Linc, ei bartner ar gyfer y cynllun, i ddod o hyd i gontractwr arall i ailddechrau'r cynllun.

Ychwanegodd y Cynghorydd Caple fod oedi wedi bod ond bod y cynllun yn cael ei ystyried yn brosiect â blaenoriaeth o hyd. Mae'r Cyngor yn parhau i ymrwymo i ddarparu lleoedd mewn lleoliad Gofal Ychwanegol modern, o'r radd flaenaf ac addas i'r diben a'r cyfleusterau cymunedol ychwanegol cysylltiedig, yn ardal Porth. Unwaith y bydd y gwaith wedi'i gwblhau, bydd 60 o fflatiau gofal ychwanegol dros bedwar llawr fydd yn llety modern gyda chymorth 24 awr y dydd i ddiwallu anghenion wedi'u hasesu pobl hŷn ac i roi cyfle iddyn nhw fyw mor annibynnol â phosibl.

Rhestrodd y Cynghorydd Caple amwynderau'r safle, sef ardal fwyta, ardal trin gwallt, ystafell gweithgareddau, canolfan gofal oriau dydd a swyddfeydd. Yn allanol, bydd 33 o leoedd parcio ynghyd â mannau i gadw beiciau a bygis, tra bydd y fynedfa bresennol i'r safle yn cael ei hail-lunio ychydig.

I gloi, rhoddodd y Cynghorydd Caple wybod bod cynllun gofal ychwanegol Dan-Y-Mynydd yn ardal Porth yn aros am gymeradwyaeth cyllid, a'r bwriad yw llofnodi'r Cytundeb Cyn Dechrau ar y Gwaith (PCA) yn fuan. Serch hynny, bydd cwblhau'r cam yma'n golygu y bydd modd i waith dylunio manwl a gwaith ymchwilio pellach ar y safle ddechrau eto cyn ailddechrau gweithgarwch llawn yn y flwyddyn newydd.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**5. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol V Dunn i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

**"**Oes modd i'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y broses o gyflwyno carfan Wardeiniaid Cymunedol y Cyngor, ac amlinellu'r cynnydd o ran yr ymrwymiad pellach i ariannu 10 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO) gyda Heddlu De Cymru?"

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod gan y Cyngor 14 Warden Cymunedol a'i fod yn ariannu 10 PCSO, sydd bellach wedi cael eu recriwtio gan Heddlu De Cymru. Mae hyn yn golygu bod yr ymrwymiad craidd yn y maniffesto i gyflwyno 24 unigolyn wedi'i gyflawni. Ychwanegodd fod yna 12 warden, 2 uwch warden a 10 PCSO. Mae modd iddyn nhw weithio 7 diwrnod yr wythnos os oes angen, a hynny'n cynnwys 2 sifft y dydd, yn y bore a'r prynhawn gyda gorgyffwrdd yn ystod y dydd. Eu prif swyddogaeth yw mynd i ardaloedd poblogaidd megis parciau a chanol trefi i fod yn bresenoldeb amlwg a chysurlon mewn lleoliadau allweddol ledled cymunedau. Mae'r wardeiniaid hefyd yn cefnogi ac yn gweithio ar y cyd â'r Heddlu, ac maen nhw'n gallu cysylltu â'r ganolfan Teledu Cylch Cyfyng trwy ddefnyddio radio. Mae prosesau cyfathrebu effeithiol ar waith rhwng goruchwylwyr pob sefydliad.

Esboniodd yr Arweinydd fod gan y wardeiniaid y pwerau angenrheidiol i gyflwyno hysbysiadau cosb benodedig ar gyfer cŵn yn baeddu, taflu sbwriel a chŵn ar gaeau chwaraeon. Nid dyma'u prif swyddogaethau ond byddan nhw'n

delio â'r materion yma. Maen nhw hefyd yn gorfodi'r Gorchmynion Diogelu Mannau Cyhoeddus (PSPOs) sy'n ymwneud ag alcohol yn Stryd y Taf, Stryd y Felin a Pharc Ynysangharad yng nghanol trefi Pontypridd ac Aberdâr a'r Ynys. Maen nhw'n rhoi nifer sylweddol o ddirwyon yn ardaloedd lle does dim hawl yfed alcohol ac mae modd iddyn nhw atgyfeirio achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod swydd aelod ychwanegol o staff wedi'i hariannu trwy gyllid y Gronfa Ffyniant Gyffredin. Mae'r aelod o staff yn gweithio'n rhan o garfan Cymunedau Diogel er mwyn helpu gyda'r atgyfeiriadau a'ch achosion ychwanegol o dorri'r PSPO. I gloi, nododd yr Arweinydd fod eu presenoldeb eisoes yn cael effaith gadarnhaol gan fod modd i'r cyhoedd eu gweld nhw yn y lleoliadau a byddan nhw'n gwneud gwahaniaeth dros amser.

**Cwestiwn ategol gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol V Dunn**:

“Beth yw'r blaenoriaethau allweddol i'r wardeiniaid cymunedol a PCSOs yn Nwyrain Aberdâr, a pha gamau gweithredu y maen nhw wedi'u cymryd i fynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol yng nghanol ein tref?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

Cadarnhaodd yr Arweinydd fod yna leoliadau allweddol sydd wedi cael eu nodi trwy wybodaeth o ganlyniad i weithio gyda'r Heddlu a PCSOs. Ychwanegodd fod y wardeiniaid yn gwisgo coch fel bod modd i'r cyhoedd eu hadnabod nhw'n hawdd ac esboniodd fod gyda nhw fynediad am ddim ar drenau a bysiau. Mae hyn yn bwysig er mwyn iddyn nhw fod ar gael i bobl ac er mwyn i'r cyhoedd fynd atyn nhw ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Fe wnaeth yr Arweinydd sylwadau am ward yr Aelod a rhoddodd sicrwydd y bydd cynnydd yn nifer y patrolau rheolaidd yn ardaloedd lle mae ymddygiad gwrthgymdeithasol.

**6. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol G E Williams i Arweinydd y Cyngor, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

“Oes modd i'r Arweinydd roi'r wybodaeth ddiweddaraf i drigolion am gynnydd cynllun pont Heol y Maendy?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol A Morgan OBE:**

Aeth yr Arweinydd ati i gydnabod bod y cynllun yma wedi bod yn anodd i ardal Cwm Rhondda Fawr Uchaf, yn enwedig o ganlyniad i ddiffyg trenau ar hyn o bryd. Serch hynny, cadarnhaodd ei fod wedi ymweld â'r safle gyda swyddogion i weld y gwaith ac ychwanegodd fod datganiad wedi'i gyhoeddi ar wefan y Cyngor yn ddiweddar er mwyn cadarnhau bod y gwaith yn mynd rhagddo'n dda. Mae slabiau concrit y bont wedi cael eu gosod ac mae Wales and West Utilities bellach wedi cael mynediad i'r safle i ddargyfeiro cyfleustodau dros y slabiau newydd.

Rhoddodd yr Arweinydd wybod bod y cynllun wedi mynd rhagddo cyn gynted â

phosibl oherwydd y tarfu. Mae gwaith gosod pont newydd Heol y Maendy hefyd wedi mynd rhagddo'n dda, a hynny ychydig o wythnosau'n gynt na'r disgwyl. Mae swyddogion y Cyngor yn parhau i weithio'n agos gyda'r contractwyr i adeiladu ac agor y bont cyn gynted ag sy'n bosibl a chyn y dyddiad gorffen arfaethedig ym mis Rhagfyr.

Mae'r Cyngor yn edrych ar lif traffig yn yr ardal ond rhoddodd yr Arweinydd wybod bod rhaid i'r cwmnïau rheoli traffig cymeradwy gymeradwyo unrhyw newidiadau'n ffurfiol a nad yw nifer o'r opsiynau a gafodd eu cyflwyno a'u hawgrymu gan drigolion yn ymarferol. Rhoddodd yr Arweinydd sicrwydd i'r Aelod fod opsiynau ychwanegol yn cael eu hailystyried a byddan nhw'n cael eu rhannu gyda chymunedau lleol yn fuan. I gloi, rhoddodd yr Arweinydd wybod y byddai rhaid cau'r bont am gyfnod hir pe na fyddai'r gwaith wedi cael ei gynnal yn dilyn Storm Dennis.

**Nid oedd unrhyw gwestiwn ategol.**

**7. Cwestiwn gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol Sera Evans i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Iechyd y Cyhoedd a Chymunedau, Cynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Harris:**

“Oes modd i'r Aelod o'r Cabinet roi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y gwaith paratoi ar gyfer cynnal yr Eisteddfod Genedlaethol ym Mhontypridd yn 2024?”

**Ymateb gan Gynghorydd y Fwrdeistref Sirol R Harris:**

Atebodd y Cynghorydd Harris drwy gadarnhau bod gwaith paratoi'n mynd rhagddo ar gyfer cynnal Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2024 ym Mharc Coffa Ynysangharad Pontypridd. Mae swyddogion y Cyngor wedi bod yn gweithio gyda threfnwyr yr Eisteddfod ers sawl mis i'w gwneud hi'n Eisteddfod unigryw, gan sicrhau bod modd i'r Cyngor hyrwyddo trafnidiaeth gyhoeddus yn rhan o drefniadau i wneud yr achlysur yn wyrdd ac yn gynaliadwy.

Ychwanegodd y Cynghorydd Harris fod cynlluniau'n cael eu datblygu ar gyfer cyfleusterau parcio a theithio, a bod lleoliadau safleoedd carfanau'n cael eu nodi ar gyfer y rheiny fydd yn dymuno aros ar safle gwersylla, sy'n elfen draddodiadol o'r Eisteddfod, wrth gwrs. Rhoddodd wybod bod swyddogion yn parhau i weithio gyda threfnwyr yr Eisteddfod mewn perthynas â logisteg a seilwaith, a bod cynllun gofodol lefel uchel yn cael ei ddatblygu gan yr Eisteddfod Genedlaethol. Bydd y Cyngor yn cytuno ar hwn cyn gynted ag sy'n ymarferol bosibl.

Roedd y Cynghorydd Harris wrth ei fodd i roi gwybod bod y Cyngor wedi cael wyth diwrnod llwyddiannus yn yr Eisteddfod eleni yng Ngogledd Cymru, gan hyrwyddo RhCT fel cyrchfan i dwristiaid gyda'r holl brofiadau unigryw sydd gan y sir i'w cynnig. Nododd fod 740 o ymatebion wedi dod i law trwy ymgynghoriad 'Dewch i siarad am yr Eisteddfod', a bod swyddogion yn mynd trwy'r ymatebion yma i lywio cynllun cyfathrebu.

Rhoddodd y Cynghorydd Harris wybod i'r Cyngor fod gweithgareddau codi arian yn y gymuned er budd gofynion cyllid yr Eisteddfod yn rhan allweddol o bob

Eisteddfod, a bod swyddogion yn cefnogi'r tri phwyllgor lleol. Siaradodd am yr Eisteddfod Genedlaethol a'i gwaddol pwysig o ran y Gymraeg yn RhCT. Yn rhan o hynny, mae carfanau Dysgu Oedolion yn y Gymuned a Gwaith a Sgiliau wedi ymgynghori â thrigolion mewn achlysuron ymgysylltu amrywiol yn y gymuned dros yr haf. Mae'r deilliannau'n dangos cynnydd yn nifer y trigolion lleol sy'n dechrau dysgu Cymraeg. Ychwanegodd y Cynghorydd Harris y bydd cyfleoedd ychwanegol ar gael i drigolion fanteisio ar sesiynau blasu ledled y sir mewn partneriaeth â sefydliad Cymraeg i Oedolion (Prifysgol De Cymru) a Menter Iaith RhCT.

I gloi, aeth y Cynghorydd Harris ati i gydnabod y cyfarfod rhwng yr Arweinydd a dros 40 o fasnachwyr / busnesau Pontypridd i drafod y cyfleoedd busnes a'r hwb economaidd y bydd yr Eisteddfod yn dod â fe. Dyna oedd dechrau sgwrs ac mae rhagor o gyfarfodydd gyda swyddogion yn cael eu cynllunio ond roedd yr adborth yn gadarnhaol iawn. Mae swyddogion y Cyngor hefyd wedi cael trafodaethau cadarnhaol gyda phartneriaid allweddol, grwpiau chwaraeon a grwpiau cymunedol dros y misoedd diwethaf, a hynny er mwyn archwilio pob cyfle i ymgysylltu cyn yr achlysur, materion cymryd rhan a gwaddol yr Eisteddfod.

**Daeth yr 20 munud i ben felly nid oedd cwestiwn ategol.**

## 43 Rhaglen Waith Y Cyngor 2023/24

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr wybodaeth ddiwedaraf mewn perthynas â Rhaglen Waith y Cyngor sydd eisoes wedi'i mabwysiadu a'i chyhoeddi. Rhoddodd wybod y bydd unrhyw eitemau wedi'u gohirio o'r mis yma yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf y Cyngor ar 25 Hydref. Y cyfarfod hwnnw fydd cyfarfod hybrid olaf y Cyngor cyn i waith ddechrau i ddatgomisiynu siambr y Cyngor yng Nghwm Clydach i'w symud i Bontypridd. Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai gwahoddiad i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg ddod i gyfarfod o'r Cyngor yn cael ei ohirio a'i aildrefnu ar ôl i'r gwaith symud ddod i ben.

I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai angen trafod adroddiad Cydbwysedd Gwleidyddol ym mis Hydref o ganlyniad i gael gwybod am grŵp gwleidyddol newydd yn cael ei ffurfio, sef y Grŵp Annibynnol, sy'n cynnwys y Cynghorydd W Jones a'r Cynghorydd W Owen

## 44 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 - 2026/27

Rhoddodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen yr wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATM) ar gyfer 2023/24 tan 2026/27, yn seiliedig ar y tybiaethau modelu presennol cyn pennu'r cynigion manwl ar gyfer strategaeth cyllideb 2024/25 yn ystod misoedd yr hydref.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod y byddai'n rhoi gwybodaeth i Aelodau mewn perthynas â'r meysydd canlynol - Cyllideb y Cyngor, Buddsoddi Cyfalaf, Cynllun Ariannol Tymor Canolig, Cyd-destun ac Ansicrwydd ac Iechyd Ariannol a Chronfeydd Wrth Gefn y Cyngor,

a hynny gyda chyflwyniad PowerPoint o dan y penawdau allweddol canlynol:

- Cyd-destun a Chyllideb dros amser (2019-2023)
- Cyfanswm Gwariant Cyfalaf 2015/16 - 2022/23
- Cyflawniad Cyllideb Refeniw – 2022/23 a 2023/24
- Ansicrwydd a Newidynnau ar gyfer CATM
- Y flwyddyn nesaf 2024/25
- Rhagolygon Tymor Canolig
- Cronfeydd wrth gefn y Cyngor
- Datganiad Ardystiedig o Gyfrifon (Drafft) 2022/2023
- Cronfeydd Wrth Gefn wedi'u Clustnodi 2022/2023
- Buddsoddiad Cyfalaf/Seilwaith (£105.1 miliwn)
- Cronfeydd Wrth Gefn ar gyfer Cyllideb Flynyddol a Chynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor (£14 miliwn)
- Cronfeydd Wrth Gefn at ddibenion Cyfrifyddu Penodol ac sydd wedi'u cadw ar Fantolenni Cydbwyllgorau (£5.9 miliwn)
- Cronfeydd Wrth Gefn sydd wedi'u cadw mewn perthynas â'r Trysorlys, Yswiriant a Risgiau Ariannol (£37.6 miliwn)
- Ymrwymiadau Ariannol a Buddsoddi i Arbed (£36.2 miliwn)
- Defnyddio Cronfeydd Wrth Gefn i Fantoli'r Gyllideb Refeniw

I gloi, rhoddodd y Cyfarwyddwr Cyfadran wybod y bydd diweddariadau'n cael eu rhoi i'r Cyngor unwaith y bydd y setliad dros dro yn dod i law gan Lywodraeth Cymru ym mis Rhagfyr 2023. Byddai'r CATM diweddaraf yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o gam cyntaf proses ymgynghori'r Cyngor ar y gyllideb.

Yn dilyn trafodaeth a chyfraniadau gan Arweinwyr y Grwpiau, **PENDERFYNWYD:**

1. Bod Aelodau'n nodi'r sefyllfa bresennol mewn perthynas â 'Chynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 tan 2026/27' a chael y newyddion diweddaraf yn nhymor yr hydref yn rhan o'r broses pennu cyllideb flynyddol.

Cafodd argymhelliad ychwanegol, doedd y rhan fwyaf o Aelodau ddim o'i blaid, e

2. Bod y Cyngor yma'n ysgrifennu at Arweinydd pob plaid yng Nghymru ac yn y DU, gan roi gwybod iddyn nhw fod Cymru wedi cael llond bol ar gael yr hyn sy'n weddill oddi ar fwrdd Llywodraeth y DU a bod rhaid i Lywodraeth nesaf y DU addo i gynyddu cyllid i Gymru'n sylweddol a gofyn bod modd i ni alw am gefnogaeth Arweinydd pob plaid.

**45 Adolygiad o Delerau ac Amodau'r Cyngor**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yr adroddiad ar y cyd i roi gwybod i'r Cyngor am y cynnig mewn perthynas â newid telerau ac amodau cyflogaeth staff.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr wybod am yr ymrwymiad i barhau i adolygu materion pellach o ran telerau ac amodau, a gafodd eu codi gan undebau llafur cydnabyddedig, a hynny yng ngoleuni angen gweithredol a'r angen am wasanaethau, yn dilyn y newid a gafodd ei gymeradwyo gan y Cyngor yn y cyfarfod a gynhaliwyd ar 28 Medi 2022. Tynnodd y Cyfarwyddwr sylw Aelodau at

yr ychwanegiad sy'n cael ei gynnig, fel sydd wedi'i nodi yn adran 4 yr adroddiad, am weithio unrhyw oriau ar ddydd Sul, bydd staff yn cael cyflog hanner amser ychwanegol o 1 Tachwedd 2023. Bydd y drefn bresennol, sef traean yn ychwanegol o unrhyw oriau sy'n cael eu gweithio ar ddydd Sadwrn, yn parhau.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD:**

1. Bod y Cyngor yn cytuno cyflwyno cyfradd cyflog ddiwygiedig yn seiliedig ar dalu cyflog hanner amser ychwanegol ar gyfer unrhyw oriau sy'n cael eu gweithio ar ddydd Sul;

2. Bod y newid yma'n cael ei gyflwyno o 1 Tachwedd 2023.

(**Nodi**: Datganodd y Cynghorydd W Treeby y buddiant personol canlynol – "Mae fy nau fab yn gweithio i'r Cyngor").

**46 Blaenoriaethau Buddsoddi'r Cyngor**

Cyflwynodd y Dirprwy Brif Weithredwr a Chyfarwyddwr y Gyfadran Cyllid, Gwasanaethau Digidol a Gwasanaethau Rheng Flaen adroddiad y Cabinet a nododd y sefyllfa o ran y cyfle i'r Cyngor fuddsoddi ymhellach yn ei feysydd â blaenoriaeth, yn unol â Chynllun Corfforaethol 'Gwneud Gwahaniaeth' 2020-2024. Roedd yr adroddiad yn gofyn am gytundeb y Cyngor o ran y buddsoddiad ychwanegol gwerth £7.730 miliwn ar draws y meysydd sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4.1 yr adroddiad fydd, os bydd yn cael ei gymeradwyo, yn cael ei gynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Cytuno ar y buddsoddiad ychwanegol a'r trefniadau cyllid sydd wedi'u nodi ym mharagraff 4, fydd yn cael eu cynnwys yn Rhaglen Gyfalaf y Cyngor.

**47 Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad a oedd yn gofyn am gymeradwyaeth Aelodau o Bolisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft Rhondda Cynon Taf (i'w weld yn Atodiad 1) ar ôl i Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu ei drafod.

Nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y polisi drafft yn ceisio cynnwys y trefniadau a'r arferion gweithio da y mae'r Cyngor wedi'u mabwysiadu, a hynny'n dilyn cwrdd ar-lein yn unig ar ddechrau'r pandemig ac yn dilyn dull hybrid erbyn hyn yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Mae darlledu'r cyfarfodydd wedi cryfhau'r cyfle i'r cyhoedd weld yr hyn sy'n digwydd ac mae hyn wedi hyrwyddo amrywiaeth yn Siambr y Cyngor.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y polisi drafft yn ceisio gwneud y dulliau sydd wedi'u rhoi ar waith hyd yn hyn yn ffurfiol, gan gydnabod yr angen i gyfarfodydd hybrid gael eu cynnal yn ôl y safonau proffesiynoldeb priodol. Mae hefyd yn nodi nifer o reolau pwysig o ran ymddygiad priodol mewn cyfarfodydd (a rheolau 'cadw tŷ' cyffredinol) o ran amgylchedd cyfarfodydd. Dyma'r tro cyntaf i hyn gael ei gynnwys mewn polisi cyfarfodydd aml-leoliad ffurfiol.

Wrth gyflwyno ei adroddiad, nododd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y polisi drafft wedi cael ei drafod a'i gymeradwyo gan Bwyllgor y Gwasanaethau Democrataidd a Chadeiryddion ac Is-gadeiryddion Pwyllgorau Craffu. Yn dilyn hyn, cafodd nifer o newidiadau eu cynnig ac maen nhw i'w gweld mewn coch yn yr atodiad. Mae'r newidiadau hefyd wedi cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol sydd wedi argymell bod y Cyngor yn eu mabwysiadu.

I gloi, tynnodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth sylw Aelodau at ddau faes mwy manwl yn y polisi, mewn perthynas â defnyddio camerâu yn adran 6 yr adroddiad, ac mewn perthynas â phresenoldeb mewn lleoliad sy'n sicrhau bod yr un safonau o ran proffesiynoldeb yn cael eu cynnal. Mae hyn yn unol â'r dull cyson sydd wedi'i fabwysiadu ac mae disgwyl i holl weithwyr y Cyngor ei ddilyn hefyd. Mae hyn wedi'i gymeradwyo'n ffurfiol yn ddiweddar yn rhan o drefniadau gweithio hyblyg a gweithio gartref y Cyngor.

Mewn ymateb i ymholiad o ran cymryd rhan mewn lleoliadau o bell, o gerbydau yn bennaf, cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth at adran 9 yr adroddiad a phwysleisiodd bwysigrwydd cymryd rhan o leoliad cyfrinachol, sy'n broffesiynol ac yn addas ar gyfer y cyfarfod ffurfiol. Cadarnhaodd y trefniadau presennol ar gyfer cofnodi pleidleisiau a'r bwriad i roi'r system bleidleisio electronig hybrid ar waith yn y swyddfa newydd yn Llys Cadwyn, Pontypridd.

Yn dilyn trafodaeth, **PENDERFYNWYD**:

1. Cymeradwyo'r Polisi Cyfarfodydd Aml-leoliad drafft (yn amodol ar gynnwys teitl llawn 'Pwyllgor Penodiadau Llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol' yn nhabl 4.3), a diwygio Cyfansoddiad y Cyngor i gynnwys copi o'r polisi y cytunwyd arno.

**48 Sefydlu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y Cydbwyllgor Corfforaethol**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu yr adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am gytundeb y Cyngor o ran sefydlu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn rhan o drefniadau llywodraethu mewn perthynas â Chydbwyllgor Corfforaethol De-ddwyrain Cymru (CJC).

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod y broses o drosglwyddo swyddogaethau Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd (CCRCD) i'r cydbwyllgor corfforaethol, o ganlyniad i'w synergedd mewn perthynas â'i gylch gwaith ar gyfer Datblygu Economaidd, yn mynd rhagddi, gan weithio tuag at statws gweithredu llawn y flwyddyn nesaf yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru.

Rhoddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth wybod bod yr adroddiad yn cynnig bod y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu presennol yn darparu'r trefniadau craffu ar gyfer y CJC, o dan gylch gorchwyl ar wahân, gan y byddai'r trefniant presennol yma'n bodloni bwriad Llywodraeth Cymru orau, fel sydd wedi'i nodi yn y canllawiau statudol. Nododd hefyd y byddai pob Awdurdod Lleol yn penodi un aelod gwirioneddol.

Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai hyn yn broses trosglwyddo trefniadau craffu presennol CCRCD i'r CJC newydd. Byddai'r rheoliadau'n ei gwneud hi'n ofynnol i'r 10 Awdurdod Lleol cyfansoddol benodi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Bwyllgor Trosolwg a Chraffu y CJC.

Cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y cafodd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu gyfarfod ar 27 Gorffennaf 2023 a'i fod wedi cytuno mewn egwyddor â'r cynnig. Mae llythyr gan Gadeirydd y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu at Swyddog Monitro Dros Dro'r CJC dyddiedig 27 Gorffennaf 2023 wedi'i atodi i'r adroddiad yn Atodiad 1. Cafodd y Cyngor wybod bod cylch gorchwyl drafft wedi'i gynnwys yn yr atodiadau a chynigiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth ei bod hi'n bosibl y byddai'r Cyngor yn dymuno rhoi cyfle i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd y CJC adolygu'r cylch gorchwyl arfaethedig a bod unrhyw newidiadau'n cael eu hadrodd i'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

I gloi, cadarnhaodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth y byddai cyfle i asesu dyfodol y CJC a'i flaenoriaethau yn dilyn ceisiadau gan nifer o Aelodau am ragor o wybodaeth mewn perthynas â nhw.

Siaradodd Is-gadeirydd Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu CCRCD, y Cynghorydd D R Bevan, am y cyfle a gawson nhw i rag-graffu ar y cynigion a'u cymeradwyo yn yr haf, a chytunodd â'r cynnig am argymhelliad ychwanegol bod Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu newydd y CJC yn cael cyfle i adolygu'i gylch gorchwyl.

**PENDERFYNWYD**:

1. Penodi'r Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yn Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu y CJC;

2. Cymeradwyo'r Cylch Gorchwyl drafft ar gyfer ei swyddogaethau mewn perthynas â'r CJC, fel sydd yn Atodiad 2;

3. Nodi penodiad Cyngor Rhondda Cynon Taf fel awdurdod cyfrifol y Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu.

4. Nodi y bydd Cytundeb Lefel Gwasanaeth rhwng Cyngor RhCT a'r CJC yn cael ei drefnu maes o law ar gyfer cost gweinyddu Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r CJC.

5. Rhoi cyfle i Gydbwyllgor Trosolwg a Chraffu'r CJC adolygu'r cylch gorchwyl arfaethedig a rhoi gwybod am unrhyw newidiadau i'r awdurdodau lleol cyfansoddol.

## 49 Newid i Aelodaeth Corff Allanol

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth – Gwasanaethau Democrataidd a Chyfathrebu ei adroddiad a oedd yn gofyn bod y newid arfaethedig i gynrychiolwyr presennol ar Gorff Llywodraethu Coleg y Cymoedd ar gyfer gweddill y cyfnod pedair blynedd (yn dod i ben yn 2025) yn cael ei drafod. Cynigiodd y Cyfarwyddwr Gwasanaeth fod y Cyngor yn trafod penodi Ms Kate Owen fel y swyddog sydd wedi'i enwebu yn lle Mrs G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, yn dilyn ei hymddiswyddiad o'r swydd.

Ar ôl trafod yr adroddiad, **PENDERFYNWYD**:

1. Derbyn enwebiadau Aelodau i gynrychioli'r Cyngor ar Gorff Llywodraethu Coleg y Cymoedd ar gyfer gweddill y cyfnod;

2. Cytuno i benodi Kate Owen fel y swyddog sydd wedi'i enwebu yn lle Mrs G Davies, Cyfarwyddwr Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant, yn dilyn ei hymddiswyddiad o'r swydd; a

3. Bod gohebiaeth yn cael ei hanfon i Goleg y Cymoedd yn rhoi gwybod am y penodiad (a newid) i gynrychiolwyr y Cyngor sydd wedi'u henwebu.

**50 Penodi Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol**

Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Materion Adnoddau Dynol yr adroddiad ar y cyd a oedd yn gofyn am gadarnhad o benderfyniad y Pwyllgor Penodiadau mewn perthynas â phenodi'r ymgeisydd sydd wedi'i ddewis i swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cafodd Aelodau wybod bod y Pwyllgor Penodiadau wedi penderfynu argymell yn unfrydol fod Mr Neil Elliott yn cael ei benodi i swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol yn dilyn cwblhau'r broses recriwtio a dewis a dethol ffurfiol.

Roedd Aelodau'n dymuno mynegi eu bod nhw o blaid y penodiad a **PHENDERFYNWYD**:

i. Cadarnhau argymhelliad y Pwyllgor Penodiadau y dylid penodi Mr Neil Elliot i swydd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol; a

ii. Nodi mai dyddiad dechrau Mr Elliot yn y swydd yma fydd dydd Iau 21 Medi 2023.

**Daeth y cyfarfod i ben am 6.18 pm**

**Y Cynghorydd G Hughes**
**Cadeirydd.**